

## PRIFFYRDD, CYMRU

LIC24-03

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LOWER GWESTYDD LANE, Y DRENEWYDD, POWYS) 2024

Gwnaed 16 Ionawr 2024

Yn dod i rym 19 Ionawr 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lower Gwestydd Lane, y Drenewydd, Powys) 2024 a daw i rym ar 19 Ionawr 2024.

#### Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Sir Powys;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Lower Gwestydd Lane, y Drenewydd, Powys) 2024" o dan y cyfeirnod qA1764539 sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

#### Cau Priffordd

3. Yn ddarostyngedig i erthyglau 4, 5, 6 a 7 o'r Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 21 Mehefin 2022 o dan

(1) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## HIGHWAYS, WALES

WG24-03

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LOWER GWESTYDD LANE, NEWTOWN, POWYS) ORDER 2024

Made 16 January 2024

Coming into force 19 January 2024

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

#### Title and Commencement

1. The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Lower Gwestydd Lane, Newtown, Powys) Order 2024 and it comes into force on 19 January 2024.

#### Interpretation

2. In this Order—

"the Council" (*"y Cyngor"*) means Powys County Council;

"the deposited plan" (*"y plan a adneuwyd"*) means the plan entitled "The Stopping Up of Highways (Lower Gwestydd Lane, Newtown, Powys) Order 2024" with reference qA1764539 which accompanies this Order;

"the developer" (*"y datblygwr"*) means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted; and

"the 1990 Act" (*"Deddf 1990"*) means the Town and Country Planning Act 1990.

#### Stopping Up

3. Subject to articles 4, 5, 6 and 7 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council

(1) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

y cyfeirnod 21/1661/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

### **Priffordd Newydd**

4. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(1), i fod yn briffordd i'w chynnal ar draul y pwrw cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdani.

### **Y Briffordd y Gwneir Gwelliannau Iddi**

5. Rhaid gwneud gwelliannau, er boddhad rhesymol y Cyngor, i'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980, yn briffordd i'w chynnal ar draul y pwrw cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol amdani.

### **Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd**

6. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn—

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;
- (b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r darn newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) hyd nes y bydd y datblygwr wedi gwella'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (d) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r darn o briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (e) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b), (c) a (d) wedi eu bodloni.

### **Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr**

7. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd

on 21 June 2022 with reference 21/1661/FUL described in Schedule 4 to this Order.

### **New Highway**

4. There will be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new length of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple marking on the deposited plan, which is to be highway maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980(1) and the Council is to be the highway authority responsible for it.

### **Improved Highway**

5. There must be improvements made, to the reasonable satisfaction of the Council, to the length of highway described in Schedule 3 to this Order, which is highway maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980 and the Council is to be the highway authority responsible for it.

### **Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up**

6. The length of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until—

- (a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;
- (b) the developer has provided the new length of highway described in Schedule 2 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;
- (c) the developer has improved the length of highway described in Schedule 3 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;
- (d) the development described in Schedule 4 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and
- (e) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b), (c) and (d) are satisfied.

### **Statutory Undertakers and Providers**

7. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then

gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

(subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

**ATODLEN 1**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gyffordd bresennol y B4568 â Lower Gwestydd Lane yn y Drenewydd, Powys, sy'n 28 o fetrau yn y man hiraf ac yn 4 metr yn y man lletaf, fel y'i dangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd newydd sydd i'w ddarparu**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a leolir 65 o fetrau i'r gogledd o gyffordd bresennol y B4568 â Lower Gwestydd Lane yn y Drenewydd, Powys, sy'n mynd i gyfeiriad y gogledd-orllewin ac yna i gyfeiriad y de-orllewin i ailymuno â Lower Gwestydd Lane, ac sy'n 90 o fetrau yn y man hiraf ac yn 5.5 metr yn y man lletaf, fel y'i dangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd sydd i'w wella**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gyffordd bresennol y B4568 â Lower Gwestydd Lane yn y Drenewydd, Powys, sy'n 33 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2 fetr yn y man lletaf, fel y'i dangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd.

**SCHEDULE 1**  
**(All measurements are approximate)**

**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway being part of the existing junction of the B4568 with Lower Gwestydd Lane at Newton, Powys with a maximum length of 28 metres, and a maximum width of 4 metres, as shown by zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**  
**(All measurements are approximate)**

**Length of new highway to be provided**

An irregular shaped length of highway located 65 metres north of existing junction of the B4568 with Lower Gwestydd Lane at Newton, Powys, heading in a north westerly then south westerly direction to re-join to Lower Gwestydd Lane, with a maximum length of 90 metres, and a maximum width of 5.5 metres as shown by stipple marking on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**  
**(All measurements are approximate)**

**Length of highway to be improved**

An irregular shaped length of highway being part of the existing junction of the B4568 with Lower Gwestydd Lane at Newton, Powys with a maximum length of 33 metres, and a maximum width of 2

metres, as shown by crosshatching on the deposited plan.

#### **ATODLEN 4**

##### **Y Datblygiad**

Trosi'r ysguboriau traddodiadol yn 4 annedd breswyl. Newid 2 ysgubor i ffurfio gerddi iard preifat. Trosi un ysgubor at ddibenion ategol, gan gynnwys ar gyfer boeler biomas. Mae'r gwaith yn cynnwys newid cynllun Lower Gwestydd Lane, darparu 3 lle pasio ac ail-leoli'r fynedfa amaethyddol. Yn ogystal, gwaith tirwedd arfaethedig a chyffredinol, uwchraddio gwaith draenio dŵr brwnt a gwaith cysylltiedig arall.

#### **SCHEDULE 4**

##### **The Development**

Conversion of the traditional barns into 4 residential dwellings. The alteration to 2 barns to form private courtyard gardens. The conversion of one barn for auxiliary uses, including for a biomass boiler. The works include the alteration to the layout Lower Gwestydd Lane, the provision of 3 passing bays and re-siting the agricultural access. Also proposed and general landscape works, upgrading of foul drainage works and other associated works.